# 11.0 Ymgysylltu a Dylanwadu

## Comisiwn Senedd Cymru

## Trosolwg

1. Cyflwyniad
2. Rôl a gwaith
3. Aelodau'r Comisiwn
4. Cyfleoedd i'r trydydd sector
5. Gwybodaeth bellach

Crëwyd **Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru** gan **Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006**.

Dyma gorff corfforaethol **Cynulliad Cenedlaethol Cymru**, ac mae'n gyfrifol am ddarpariaeth eiddo, staff ac adnoddau i gefnogi Aelodau'r Cynulliad (AC).

**Newidiodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru** ei enw i **Senedd Cymru** ym mis Mai 2020.

Mae'r daflen hon yn darparu manylion pellach am y Comisiwn; ei rôl a'i waith a'i berthnasedd i'r trydydd sector yng Nghymru.



Llun: Senedd Cymru
© Llun gan Nick Fewings ar Unsplash

## Rôl a gwaith

Mae'r Comisiwn yn cynnwys y Llywydd a phedwar Aelod arall a enwebwyd gan y prif bleidiau gwleidyddol. Clerc y **Senedd** yw pennaeth staff y Comisiwn, ac ef hefyd yw Prif Weithredwr y Comisiwn.

Mae staff Comisiwn y Senedd yn cynnwys holl staff blaen-y-tŷ y **Senedd**; staff y **Senedd** sy'n ymwneud â chyfathrebu mewnol ac allanol, staff **Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau** a staff **Gwasanaeth Seneddol y Senedd**, megis clercod pwyllgorau ymysg eraill.

## Aelodau'r Comisiwn

Etholwyd Comisiynwyr y **Senedd** gan yr Aelodau mewn Cyfarfod Llawn, ac yn ymuno â hwy mae'r Llywydd, sy'n cadeirio'r Comisiwn.

**Dolen Allanol**
Mae'r rhestr hon o'r Comisiynwyr ar gael ar wefan y Senedd, ynghyd â'u rolau penodol:
Y Comisiynwyr a'u rôl

## Cyfleoedd i'r trydydd sector

Mae'r Comisiwn yn ceisio gwella dealltwriaeth ac ymrwymiad i waith **Senedd Cymru**. Golyga hyn fod yna gyfle i'r trydydd sector wneud awgrymiadau i'r Comisiwn am sut i gyflawni'r nod yma, ac yn benodol, sut i gynnwys y sector yn effeithiol yn ei waith. Bydd prosiect **Lleisiau dros Newid Cymru** yn canolbwyntio ar hyn fel blaenoriaeth allweddol, a byddwn yn croesawu unrhyw awgrymiadau gan fudiadau sydd â syniadau ar y pwnc.

Mae hefyd yn ddefnyddiol i fudiadau'r trydydd sector ystyried ffyrdd o gysylltu â chyfarwyddiaeth **Busnes y Senedd**. Gall y gwasanaeth pwyllgor a'r gwasanaeth ymchwil aelodau fod yn ddefnyddiol iawn i fudiadau sy'n dymuno bod yn rhan o **Fusnes y Senedd**. Efallai yr hoffech ystyried rhoi disgrifiad o weithgareddau a maes diddordeb eich mudiad i glerc y pwyllgor fel y gellir eich diweddaru ar fusnes y pwyllgor, a chysylltu â chi os oes ymchwiliad pwyllgor perthnasol yn digwydd.

Am ragor o wybodaeth am gysylltu â'r Pwyllgorau, gweler ein taflen wybodaeth arall:
**11.17 Sut i gyflwyno tystiolaeth a rhoi tystiolaeth ar lafar**

Mae **gwasanaeth ymchwil** yr Aelodau yn adran ddefnyddiol i gysylltu â hi, gan ei fod yn darparu cefnogaeth ymchwil cyfrinachol a diduedd i bwyllgorau archwilio a deddfu'r **Senedd**, ac i bob un o'r 60 Aelod o'r **Senedd** a'u staff. Os ydych yn cynhyrchu unrhyw gyhoeddiadau, ymchwil, adroddiadau neu gyhoeddusrwydd, mae'n werth ei anfon at Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau yn ogystal â'r Aelodau o'r Senedd eu hunain.

Mae gan **Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau** arweinyddion ar gyfer gwahanol feysydd polisi, felly mae'n werth darganfod pwy sy'n arwain eich maes polisi chi a chysylltu gyda hwy i amlygu eich arbenigedd a'ch sail tystiolaeth. Gallwch hefyd edrych ar ystod o friffiau a gwybodaeth a gynhyrchir gan **Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau** ar eu gwefannau. Anelir y rhain yn bennaf at yr Aelodau o'r Senedd, ond gallant hefyd fod yn ddefnyddiol i fudd-ddeiliaid allanol.

**Dolen Allanol**

Mae gwybodaeth am y Comisiwn a Gweinyddiaeth y Senedd ar gael yn:
Senedd Cymru - Y Comisiwn a gweinyddiaeth y Senedd

## Gwybodaeth bellach

**Comisiwn y Senedd**
Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am Gomisiwn y Senedd ar wefan Senedd Cymru
https://senedd.cymru/cy/abthome

---

Neu fe allwch gysylltu â'r Comisiwn gan ddefnyddio'r canlynol:

**E-bost:** contact@senedd.wales
**Ffôn:** 0845 010 5500
**Typetalk:** 0845 010 5500
**Minicom:** 029 2089 8601
**Ysgrifennu at:** Senedd Cymru/ Welsh Parliament,
Tŷ Hywel, Bae Caerdydd, Caerdydd,
CF99 1NA

---

**Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru**
**Ffôn: 0800 2888 329**
www.wcva.org.uk

Cefnogi Trydydd Sector Cymru
Third Sector Support Wales

Rhwydwaith o fudiadau cymorth i'r trydydd sector cyfan yng Nghymru yw Cefnogi Trydydd Sector Cymru.

Ceir ynddo'r 19 corff cymorth lleol a rhanbarthol ledled Cymru, y Cynghorau Gwirfoddol Sirol, a'r corff cymorth cenedlaethol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC).

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â
https://thirdsectorsupport.wales/cy/cysylltu/

## Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw un sy'n gweithredu neu'n gwrthod gweithredu arno.